



Swydd Ddisgrifiad

Rheolwr Masnach

Cyflog: £30 - £35k ynghyd â thaliadau bonws posib ar sail perfformiad

Rôl: Parhaol, llawn amser

Rydym yn Borth Ymddiriedolaeth, sy'n golygu bod yr holl refeniw a grëir yn cael ai ail-fuddsoddi yn yr harbwr er mwyn gwella ein cyfleusterau a'n gweithrediadau yn barhaus, sicrhau y medrwn bob amser gynnog y profiad gorau posib i berchnogion angorfeydd ac ymwelwyr. Caiff yr Harbwr ei reoli gan Fwrdd o Gomisiynwyr a'i weithredu gan dîm o staff harbwr llawn amser, ymroddedig, sydd bob amser ar gael yn ystod oriau golau ddydd, haf a gaeaf, i gynnog eu cymorth a'u cyngor proffesiynol. Mae Bwrdd Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot a'r tîm Gweithredol wedi arwain strategaeth buddsoddi sylweddol i ddatblygu cyfleusterau presennol yr harbwr nes ei wneud yn **Ganolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru**. Mae arnom nawr angen uwch aelod staff i ymuno â'n tîm medrus i gefnogi ein Prif Weithredwr yn ystod y gwaith datblygu a'r gwaith o barhau i weithredu'r harbwr.

Cyfrifoldebau Sylfaenol:

- Gofynion cychwynnol y swydd fydd sicrhau cyflawni targedau cyllidebol, grantiau ac archwilio ynghyd ag adrodd yn gywir gydol y cyfnodau datblygu
- Cynorthwyo i ddatblygu a gwireddu'r strategaeth busnes cyflawn
- Goruchwylio cytundebau tenantiaeth eiddo masnachol newydd a chyfredol, a chysylltu â'r tenantiaid
- Hyrwyddo 'r Porth Ymddiriedolaeth fel **Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru**
- Trefnu achlysuron yn yr Harbwr a chysylltu â threfnwyr achlysuron pentrefol a threfnwyr trydydd parti'r Harbwr
- Datblygu cyfleoedd busnes a chydweithredu; adeiladu ar gysylltiadau a phartneriaethau cyfredol oddi fewn i'r meysydd gwirfoddol a chyhoeddus, preifat a masnachol a fydd yn golygu trefnu cyflwyniadau ac ymgynghoriadau cyhoeddus
- Rheoli ac annog staff (cyfeirio at y diagram strwythur trefniadaeth)
- Dirpwyo, yn ôl y gofyn, i'r Prif Weithredwr

Dyletswyddau:

Bydd daliwr y swydd yn rhan o'r tîm rheoli yn arwain twf y Porth Ymddiriedolaeth er mwyn ei sefydlu fel **Canolfan Arfordirol Cenedlaethol a Rhyngwladol o Ragoriaeth**. Ymhlith y dyletswyddau fydd:

- Sicrhau gwireddu targedau cyllidebol ac archwilio, cyflwyno adroddiadau cywir gydol y cyfnod datblygu a'r gwaith gweithredol ar y gweill, a chynorthwyo i ganfod a chyflwyno ceisiadau am grantiau cyllid yn y dyfodol
- Denu sectorau twristiaeth newydd i'r rhanbarth; ymestyn y cynnig tymhorol i hyrwyddo hyfywedd masnachol y Porth Ymddiriedolaeth
- Rheoli sefydlu a gweithredu Canolfan Cyswllt Morol, Canolfan Dehongli a Chanolfan Gwybodaeth fel eu bod yn unol â chynlluniau cyllid, ansawdd ac amser
- Nodi tueddiadau tymhorol a chyfleoedd marchnata i ymestyn y gwasanaethau cyfredol a mwyhau'r potensial o ddatblygu'r agweddau mân-werthu, llety, masnachol, ymwelwyr a chanolfan ddehongli
- Hyrwyddo a hybu diddordebau busnes y Porth Ymddiriedolaeth yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'i weithrediadau a'i ddatblygiadau fel **Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru**, ac fel lleoliad cynnal achlysuron
- Sicrhau bod proffeil gwefan y Porth Ymddiriedolaeth yn ddeinamig, yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r twf ar y gweill
- Ymwneud â phenderfynwyr uwch yn y meysydd twristiaeth, preifat, cyhoeddus a masnachol
- Rheoli'r Wyl Harbwr bresennol ac unrhyw weithgareddau/achlysuron newydd o eiddo'r Porth Ymddiriedolaeth. Hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng trefnwyr achlysuron trydydd parti a thîm yr Harbwr, yn sicrhau cydlynid yr holl achlysuron a'r cyfleusterau angenrheidiol
- Cychwyn ymgyrchoedd ymchwil marchnad i ganfod perfformiad blynyddol y Porth Ymddiriedolaeth ac yna gweithredu camau'n seiliedig ar y canfyddiadau
- Datblygu a chynnal a chadw'n gywir bas data cwsmeriaid ar gyfer ymgyrchoedd marchnata, datganiadau i'r wasg, y wefan a chyfryngau cymdeithasol

- Sicrhau y bydd y Porth Ymddiriedolaeth yn mwyhau ei gyfleoedd datblygu yn unol â Themâu Trawsbynciol strategol Llywodraeth Cymru; felly bydd y swydd yn gweithredu fel Pencampwr ThT i'r Porth Ymddiriedolaeth

Cymwysterau:

Dylai fod gan yr ymgeiswyr Radd berthnasol/ aelodaeth o gorff proffesiynol, neu gymhwyster rheoli proffesiynol perthnasol. Byddai profiad cyffelyb priodol hefyd yn cael ei ystyried (os ydych yn ansicr p'un a yw eich profiad a'ch cymwysterau'n berthnasol neu beidio ar gyfer y swydd yna cysylltwch â ni i drafod hyn ar 01834 812094 est 3

Profiad:

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau masnachol cadarn ac yn medru dangos y gallu i gyrraedd targedau perfformiad ac ariannol blynyddol yn ogystal â bod yn fedrus wrth fonitro a gwella perfformiad busnes. Cyfathrebwr cadarn yn cynnig tystiolaeth o ganlyniadau datblygu busnes llwyddiannus, wedi'i gyfuno â phrofiad marchnata. Rydym yn edrych am rywun gyda'r gallu penodol i arwain, cymell ac ysbrydoli staff i gyrraedd targedau perfformiad tra ar yr un pryd yn meddu ar wybodaeth sicr o faterion adnoddau dynol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. **Mae'r siart trefnu amguedig yn nodi meysydd cyfrifoldeb.**

Byddai cefndir amlddisgyblaeth o fantais a byddai ymgeiswyr sy'n medru dangos profiad a llwyddiant mewn un neu ragor o'r canlynol ar eu hennill.

- Gweithio llwyddiannus ar y cyd gyda mudiadau allanol ar draws sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn benodol arddangosfeydd cyhoeddus/pyrth gwybodaeth cyhoeddus deongliadol/gwybodaeth i dwristiaid a rhaglenni achlysuron
- Rheoli eiddo masnachol/gwerthiant masnachol
- Datblygu cyfleoedd marchnata newydd/adnoddau ar-lein/ cyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyno ceisiadau am gyllid grantiau; rheoli prosiectau a noddwyd gan grantiau

Cymwyseddau:

- Y gallu i ysbrydoli, datblygu ac annog staff trwy sgiliau menter, dylanwadu a dirprwyo tra gosodir a chyflawnir safonau perfformio uchel ar y cyd ag amcanion cyffredin
- Sgiliau cyfathrebu a rhyng-bersonol ardderchog a'r gallu i gydlynu a chryfhau perthynas gyda rhanddeilwyr a phartneriaid allweddol yn ogystal â thîm gweithredu mewnol
- Sgiliau TG cadarn yn cynnwys y gallu i baratoi cyflwyniadau PwyntPwer a'r gallu i ddiweddarau a chynhyrchu deunyddiau cyfathrebu a marchnata yn seiliedig ar ein brand hunaniaeth
- Sgiliau ariannol a threfnu cadarn, ymwybyddiaeth fasnachol, ymarfer gorau caffael, tystiolaeth o reoliad perfformiad a chyllid llwyddiannus yn cynnwys y gallu i werthuso'n feirniadol safonau perfformiad cyfredol a nodi cyfleoedd, tueddiadau a llefydd i wella
- Dealltwriaeth o anghenion cydraddoldeb oddi fewn i'r gweithle a chyflwyno asesiadau effaith
- Y gallu i gyflwyno mentrau lles ac iechyd ynghyd â hyrwyddo'r Gymraeg, a dealltwriaeth o'r Ddeddf Iaith Gymraeg
- Agwedd gadarnhaol a brwdfrydig torchi llewys wrth ddatrys problemau ac wrth benderfynu, a'r gallu i gadw'n ddigynnwrf ac ymateb yn gadarnhaol mewn sefyllfaoedd anodd tra ymdopir ag amrywiaeth o brosiectau
- Rhygnu arni, yn barod i weithio ar eich pen eich hun yn ogystal â bod yn rhan o dîm gyda'r gallu i flaenoriaethu'n effeithiol a chynllunio eich gorchwylion gwaith eich hun gan gadw golwg ar y canlyniadau yr anelir atynt

Rhinweddau a Phriodoleddau Personol: Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal; dealltwriaeth eglur o brosesau Asesiad Risg ac Iechyd a Diogelwch; canolbwyntio ar ganlyniadau; hunan-gymhelliad; gallu i weithio o dan bwysau; cywirdeb; tegwch a chysondeb; yn barod i ddysgu sgiliau newydd, pan fydd angen yn barod i ysgwyddo'r swyddogaeth yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Amgylchiadau Personol:

Bydd y swydd yn cynnwys peth gwaith gyda'r nos, pen-wythnosau a gwyliau banc a rhaid wrth barodwydd i fod yn hyblyg. Rhagwelir y bydd y swydd yn cynnwys teithio i amrywiaeth o leoliadau wrth gyflwyno cyflwyniadau/gweithio gyda rhanddeilwyr, ac er mwyn datblygu busnes.

Ni fwriedir i'r swydd-ddisgrifiad hwn i fod yn gwbl gynhwysfawr ac yn ychwanegol i'r gofynion hyn bydd yn ofynnol i ddaliwr y swydd gyflawni dylestswyddau eraill fydd yn rhesymol ofynnol, ar yr amod y bydd hynny o fewn ei allu/gallu neu fe roddir hyfforddiant i sirchau'r gallu hwnnw.